# HEN STABLAU - MACHYNLLETH PLAS– OLD STABLES

# MACHSTABLAU

## Ionawr 2025

**Annwyl Gyfaill Machstablau**



Mae'n debyg y byddwch wedi sylwi bod y gwaith o'r diwedd wedi dechrau ar Stablau Plas Machynlleth. Bu oedi difrifol gyda'r gwaith dros yr haf a'r hydref oherwydd ymateb araf cynllunwyr Powys; cyflawni amodau amrywiol yn ymwneud â'r adeilad; a thrafodaethau cymhleth gyda'r cyllidwyr. O ganlyniad, bu'n rhaid gohirio'r digwyddiad agored a gynlluniwyd ar gyfer yr haf diwethaf.

Efallai y cofiwch o'n cylchlythr diwethaf bod tua £650,000 wedi'i godi ar gyfer Cam Un y gwaith adeiladu. Daeth hwn o gronfa Trawsnewid Trefi LLywodraeth Cymru, Y Loteri Dreftadaeth a Cadw. Bydd hyn yn talu am ail-doi ac adfer gwaith maen yr adeilad.





Efallai eich bod hefyd wedi gweld y daflen sy'n rhoi gwybod i bobl am y prosiect. Mae hwn yn dal i gael ei ddosbarthu o amgylch Machynlleth a byddai'n help mawr pe baech yn gallu mynd â rhai i'w rhoi i gysylltiadau. Gellir casglu'r daflen o ddesg Y Plas. Mae fersiwn ar-lein ynghlwm.






Yn dilyn cyfarfod i gyflwyno'r prosiect i grwpiau cymunedol, bu disgyblion Blwyddyn Pump Ysgol Gynradd Bro Hyddgen ym ymweld â'r Stablau. Dilynwyd hyn gan weithdy yn yr ysgol. Mae elfennau o waith y plant yn cael eu hymgorffori yn y faneri sydd bellach i fyny ar y sgaffaldiau ac yng nghyntedd y Plas




Gobeithiwn gynnal prosiectau celf yng ngwanwyn 2025 gyda grwpiau cymunedol eraill. Un syniad yw creu murluniau ar baneli fydd yn gorchuddio'r hen floc toiledau ger y Stablau.

Yn y cyfamser rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gasglu straeon ar fideo gan bobl sydd ag atgofion yn ymwneud â'r Stablau. Os ydych yn meddwl y gallech gyfrannu at hyn neu'n gwybod am rywun a hoffai siarad am eu hatgofion o'r Stabalu/Cenelau, cysylltwch â ni.

**Tasgau cyfredol:**

- **Sicrhau tua 1.8 miliwn ychwanegol o gyllid**
- **Cwblhau'r gwaith adeiladau Cam Un**
- **Rhowch wybod i gynifer o bobl â phosibl am y prosiect, a'u cynnwys ynddo**

Os hoffech weld ein cynllun busnes, ac am ragor o wybodaeth, neu gyfrannu at y prosiect fel gwirfoddolwr, cysylltwch â ni ar: **machstablau@gmail.com**

Cadw · Cronfa Treftadaeth Heritage Fund · Trawsnewid Trefi Transforming Towns · Llywodraeth Cymru Welsh Government · AHF Transforming Heritage